



uwch gweithgareddau 1-4

national
museum
wales
cymru



cyfenwau

Nod: Gwrando a deall ar sgwrs gan yr Athro Prys Morgan am gyfenwau'r Cymry.

i) Wrth wrando ar y sgwrs, nodwch yr ateb cywir:

1. Tua faint o flynyddoedd yn ôl y dechreuodd y Cymry gael cyfenwau parhaol?
a) 900 b) 500 c) 200

2. Mae 'ap' yn golygu
a) merch b) wŷr c) mab

3. Fel arfer, dros sawl cenhedlaeth roedd achau'r Cymry yn mynd yn ôl?
a) 9 b) 7 c) 3

4. Cyn y Deddfau Uno, roedd y Cymry'n byw o dan ddeddf
a) Owain Glyndŵr b) Hywel Dda c) Myrddin


5. Roedd y Cymry'n meddwl ei bod yn bwysig eu bod yn
a) unigolion b) aelod o blaid c) perthyn i dylwyth

6. Roedd rhaid i'r Cymry newid eu henwau oherwydd
a) rhyfel b) y Deddfau Uno c) eu bod nhw eisiau newid



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales

7. Yr enw pwysicaf i'r Cymry oedd
a) enw'r tad-cu b) enw'r fam c) enw'r tad
-



8. Pa enwau oedd yn cael eu hystyried yn beryglus?
a) enwau Catholig b) enwau Saesneg c) enwau brenhinoedd
-

9. Ar ôl y Deddfau Uno, pa enw oedd yn dderbyniol?
a) Gwasmair b) David c) Gwasdewi
-

10. Yng Nghymru, roedd Jones fwyaf poblogaidd yn
a) y de b) y gorllewin c) y gogledd
-



uwch 1

ii) Trafodwch darddiad enwau'r bobl sydd yn eich grŵp / dosbarth.

iii) Beth, yn eich barn chi, yw tarddiad yr enwau hyn?

Vaughan

Wynne

Lloyd

Pritchard

Bevan

Gooch

Saer

Gittins



iv) Trafodwch arfer y Cymry o llysenwi pobl. Oes llysenwau diddorol yn eich ardal chi?

v) Sut cawsoch chi eich enw bedydd? Oes rhyw enw arbennig wedi aros yn eich teulu? Dywedwch yr hanes.

vi) Tasai rhaid ichi enwi plentyn, pa enw fasech chi'n ei ddewis? Pa enwau sy'n gas gennych? Pam?



rhai o leisiau'r oriel

Nod: Gwrando ar dair cân wahanol i'w gilydd a'u deall; ymestyn geirfa a thrafod nifer o bynciau perthnasol.

Tasg 1

Colli Iaith

Cyn gwranddo ar y gân defnyddiwch eich geiriadur / geirfa neu holwch eich tiwtor i olrhain ystyr y geiriau hyn:

urddas	diasbedain	porth
awen	cywrain	treftadaeth
barddas	clebar	ymdaith
bratiaith	gwroniaid	
persain	telaidd	

Nawr ewch at y jiwcbocs yn ardal 'Gwlad y Gân' a gwrandewch ar Heather Jones yn canu 'Colli Iaith'.



Mae'r rhifau isod yn cyfateb i'r penillion. Atebwch:

1a) Pa air ydych chi'n ei wybod sy'n debyg i 'barddas'?

b) Ydych chi'n gallu diffinio 'bratiaith' yn Gymraeg?

2a) Pa air yn yr ail bennill sy'n debyg i 'melys' neu 'swynol'?

b) Disgrifiwch sŵn brân yn Gymraeg.

3a) Nodwch dri gair yn y pennill hwn sy'n perthyn i'r byd ysbrydol.

b) Pa wroniaid gwyddoch chi amdanynt yn hanes Cymru?

4a) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng fferm a thyddyn?

b) Beth wyddoch chi am Elan, Tryweryn, Claerwen a Llanwddyn? P'un yw'r fwyaf enwog? Pam?

5a) Ydy'r pennill olaf yn obeithiol neu yn ddigalon? Rhowch eich rhesymau.

b) Beth, yn eich barn chi, yw'r 'ymdaith'?

Pynciau trafod:

Ydy hi'n bosib cael cenedl heb ei hiaith ei hun? Rhowch enghreifftiau.

Ydy iaith ond yn gyfrwng cyfathrebu?

Ydy Cymru yn wahanol i wledydd eraill? Sut?

Yn ôl y gân, iaith, cerddoriaeth, crefydd a thir yw hanfodion cenedl. Oes pethau eraill sy'n bwysig i genedl yn eich barn chi? Pa bethau pwysig eraill sydd yn cael eu harddangos yn Oriol 1?

Tasg 2

Tryweryn

Gwrandewch ar gân Meic Stevens, 'Tryweryn'. Atebwch:

- i) Ydy'r gân yn fwy hawdd neu yn fwy anodd ei deall na 'Colli laith'? Pam?

- ii) Pam mae e'n sôn cymaint am flodau?

- iii) Pam mae e'n pwysleisio'r ffaith bod y dŵr yn cysgu?

- iv) Beth dych chi'n ei wybod am Dryweryn? Holwch bobl eraill.



uwch 2

v) Ydy hon yn gân wleidyddol? Rhowch eich rhesymau dros neu yn erbyn.

vi) Ydych chi'n hoffi'r gân ai peidio? Pam?

vii) Mae tri pheth sy'n perthyn i Dryweryn / Capel Celyn neu i Meic Stevens yn Oriol 1. Ewch o gwmpas i weld ydych chi'n gallu eu darganfod a'u nodi:

- 1) _____
- 2) _____
- 3) _____



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru/National Library of Wales

Tasg 3

Y Gân Werin

Mae deall geiriau cân yn gallu bod yn anodd. Gwrandewch ar Tommy Williams yn canu'r gân werin hon a rhowch (✓) (= gwir) neu (X) (= anwir) ar ôl y gosodiadau a ganlyn:

- Digwyddodd yr helynt ryw nos cyn ffair Gŵyl Ifan.
- Enw'r llanc oedd Ifan.
- Gwraig y ffermwr oedd Catrin Jên.
- Cyrhaeddodd Ifan cyn i Catrin Jên fynd i'w gwely.
- Cafodd e fwyd yn y gegin.
- Buon nhw'n caru am chwarter awr.
- Clywon nhw sŵn y ci yn cyrraedd.
- Enw'r ci oedd Floss.
- Cuddiodd Ifan yn y cwpwrdd mawr.
- Roedd gwynt / oglau yn dod o'r cwpwrdd.
- Roedd Ifan yn gwisgo trowsus brethyn.
- Y cyngor a gafodd oedd peidio â mynd i garu ar ôl bwydo'r moch.



sgwrs

Cyflwyniad strwythuredig – Cerrig Milltir yn Hanes yr Iaith Gymraeg

Dyma 'Lyfr Aneirin' sy'n cynnwys 'Y Gododdin', y gerdd hynaf sydd gennym yn y Gymraeg. Mae pobl yn credu bod y cerddi yma wedi cael eu cyfansoddi gan fardd o'r enw Aneirin oedd yn byw yn ail hanner y chweched ganrif. Mae e'n adrodd hanes milwyr o lwyth y Gododdin a deithiodd o'u tiroedd o gwmpas Caeredin i ymladd yn erbyn yr Eingl-Sacsoniaid yng Nghatraeth, sef Catterick yn Swydd Efrog. Yn y cyfnod cynnar yma roedd Cymraeg yn cael ei siarad mor bell i'r gogledd â de'r Alban.



Y Deddfau Uno

Beth bynnag oedd y gwir fwriad tu ôl i *Ddeddfau Uno 1536 a 1542-3*, wnaethon nhw ddim lles i'r iaith Gymraeg. Er bod y mwyafrif o boblogaeth Cymru ar y pryd yn Gymry uniaith, Saesneg, o hyn allan, fyddai iaith gweinyddiaeth a chyfraith y wlad. Ond daeth help i'n hiaith o gyfeiriad arall.

Cyfieithu'r Beibl

Er bod y llywodraeth yn awyddus i weld pawb yn ynysoedd Prydain yn siarad Saesneg, roedden nhw hefyd am hyrwyddo Protestaniaeth. Yn y pen draw, roedd Protestaniaeth yn bwysicach na'r Saesneg, gymaint oedd bygythiad Pabyddiaeth. Canlyniad hyn oedd pasio Deddf Cyfieithu'r *Beibl* i'r Gymraeg yn 1563. Y cyfieithydd cyntaf oedd William Salesbury, gŵr o Lansannan, Sir Ddinbych. Gorffennodd e'r dasg ebyn 1567, ond, yn anffodus, am fod gan Salesbury syniadau rhyfedd am sillafu Cymraeg, doedd ei gyfieithiad ddim yn dderbyniol gan y bobl gyffredin.



Yn ffodus, daeth gŵr arall i'r adwy, sef *William Morgan*, ficer Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Yn ogystal â bod yn ysgolhaig gwyb, roedd gan William Morgan glust i wybod beth fyddai'n dderbyniol gan ei gydwladwyr. Bron ar unwaith, derbyniodd ei gyfieithiad goeso mawr, ac o ganlyniad roedd y bobl gyffredin o Fynwy i Fôn yn clywed Cymraeg safonol o Sul i Sul. Roedd hyn yn bwysig iawn i barhad yr iaith fel y sylweddolwn ni wrth weld beth ddigwyddodd yn achos Gwyddeleg a Gaeleg yr Alban.

Griffith Jones, Llanddowror

Mae *Griffith Jones*, Llanddowror, yn un o gymwynaswyr mawr y Gymraeg oherwydd trwyddo ef y dysgodd miloedd i ddarllen yr iaith. Roedd e'n offeiriad, ac i ddechrau bu'n gweithio dros y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol (SPCK). Fodd bynnag, doedd e ddim yn cytuno â holl bwyslais y mudiad hwnnw ar ddysgu Saesneg. Teimlai Griffith Jones ei bod yn well i Gymry dderbyn eu haddysg drwy eu hiaith eu hunain ac yn 1731 dechreuodd sefydlu ei ysgolion cylchynol. Er mwyn hwyluso'r gwaith, cyhoeddodd lyfrau darllen a sefydlu cyrsiau i hyfforddi'r tiwtoriaid. Erbyn 1761, pan fu Griffith Jones farw, credir bod tua 250,000 o bobl wedi mynd trwy ei ysgolion – bron hanner poblogaeth Cymru ar y pryd. Cymaint oedd enw da'r ysgolion nes i Catrin Fawr o Rwsia anfon pobl draw i Gymru i'w gweld gyda'r bwriad o sefydlu ysgolion tebyg yn Rwsia.



Y Welsh Not

Darn o bren oedd hwn ac arno'r llythrennau WN, neu'r geiriau *Welsh Not*. Mae'n edrych yn ddiniwed, ond gwnaeth lawer o ddrwg i'r iaith Gymraeg. Byddai'r athro'n ei roi o gwmpas gwddf y plentyn cyntaf a glywai yn siarad Cymraeg yn y bore a byddai hwnnw wedyn yn ceisio ei drosglwyddo i blentyn arall. Byddai'r athro yn cosbi'r plentyn anffodus oedd yn ei wisgo ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Er bod llawer o Gymry gwlatgar yn ei gasáu, roedd rhieni eraill yn ei dderbyn am eu bod yn awyddus i'w plant ddysgu siarad Saesneg.



uwch 3

Cymdeithas yr Iaith

Yn dilyn darlith radio enwog *Saunders Lewis*, 'Tynged yr iaith', a ddarllledwyd ym mis Chwefror 1962, aeth nifer o aelodau ifainc Plaid Cymru ati i sefydlu cymdeithas i ymladd dros hawliau'r iaith Gymraeg. I ddechrau, pwyswyd am *ffurflenni swyddogol yn Gymraeg* a

thynnwyd sylw at statws eilradd yr iaith. Yn nes ymlaen, yn y saithdegau, rhoddwyd sylw i faterion eraill fel arwyddion ffyrdd, addysg, darlledu, cynllunio a pholisi tai.



Dulliau di-drais o brotestio a ddefnyddiwyd a chafwyd llawer o *orymdeithiau*, gwrthod talu dirwyon, *meddiannu*



swyddfeydd ac achosi *difrod i eiddo*. Carcharwyd bron 200 o aelodau ac ymddangosodd cannoedd mewn llysoedd. Llwyddodd

y Gymdeithas i ennill cefnogaeth eang i'w hachos a hi sy'n haeddu llawer o'r clod bod gennym, erbyn hyn, *ffurflenni a dogfennau dwyieithog*, arwyddion ffyrdd, radio a *sianel deledu Gymraeg* a deddfau iaith 1967 a 1993.



Atebwch a thrafodwch y cwestiynau a ganlyn:

- i) Pa brawf sy gennym bod y Gymraeg wedi cael ei siarad y tu allan i Gymru ar un adeg? Nodwch enwau Cymraeg rhai o drefi a dinasoedd Lloegr.

- ii) Pa ddrwg wnaeth y Deddfau Uno i'r Gymraeg? Ydy deddf gwlad yn bwysig i iaith yn eich barn chi?

uwch 3

iii) Ym mha fodd roedd cyfieithiad William Morgan o'r Beibl yn well nag un William Salesbury? Oes pwrpas mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg pan yw pawb yn deall Saesneg?

iv) Beth oedd cyfraniad Griffith Jones i achos yr iaith? Ydy hi'n bwysig derbyn eich addysg yn eich iaith eich hun?

v) Oedd y 'Welsh Not' yn syniad da wrth ddysgu iaith? Fyddai English Not yn gweithio mewn dosbarthiadau i oedolion?

vi) Beth yw cyfraniad Cymdeithas yr Iaith? Pa welliannau hoffech chi eu gweld yn sefyllfa'r iaith Gymraeg?



ymarferion llafar

i) Gwrthrychau trafod

Pa wrthrychau sydd ym mhob cwdyn?

Defnyddiwch y gwrthrychau i ddatblygu sgwrs am hanes yr iaith.

Oes dyfodol i'r iaith Gymraeg? Rhowch eich rhesymau.

Beth yw'r prif anawsterau sy'n wynebu dysgwyr? Sut basech chi'n eu goresgyn?

Lluniwch restr o gynghorion i berson sydd am ddechrau dysgu Cymraeg.



ii) Arogleuon

Beth dych chi'n gallu ei wynto / arogleuo?

Pa arogleuon dych chi ddim yn eu hoffi. Pam?

Fel grŵp, lluniwch stori sy'n cysylltu'r tri pheth.



uwch 4

iii) Siaradwyr Cymraeg

Gwrandewch ar y siaradwyr ar eich lefel ac atebwch y cwestiynau am unrhyw dri ohonynt.

Enw	_____	_____	_____
Yn dod o	_____	_____	_____
Yn byw yn	_____	_____	_____
Gwaith	_____	_____	_____
Pam dysgu Cymraeg?	_____	_____	_____
Beth sy'n help?	_____	_____	_____